# BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN

Dydd Mercher, 16 Mawrth 2022

10:00 – 12:30

Microsoft Teams

| Aelodau presennol: | |
|---|---|
| **Enw** | **Sefydliad** |
| Emyr Williams (EW) - Cadeirydd | Parc Cenedlaethol Eryri |
| Cyng. Dyfrig Siencyn (DS) | Cyngor Gwynedd |
| Dylan Williams (DW) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Shan Morris (ShM) | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Ffion Johnstone (FfJ) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Sioned Rees (SR) | Llywodraeth Cymru |
| Justin Hanson (JH) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Bethan Russell Williams (BRW) | Mantell Gwynedd |
| Lowri Hughes (LH) | Prifysgol Bangor |
| Aled Jones-Griffith (AJG) | Grŵp Llandrillo Menai |
| Sian Purcell (SP) | Medrwn Môn |
| Dafydd Gwynne (DG) | Iechyd Cyhoeddus Cymru |

| Yn mynychu: | |
|---|---|
| Alwen Williams | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Rhiannon Elis-Williams | Cyngor Gwynedd - cyfieithydd |
| Bethan Evans | Cyngor Gwynedd - cyfieithydd |
| Nia Williams (NW) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Dewi Wyn Jones (DWJ) | Cyngor Gwynedd |
| Sandra Thomas (ST) | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn |
| Lois Owens (LO) | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn |

| Ymddiheuriadau: | |
|---|---|
| Ffrancon Williams | Adra |

| | |
|---|---|
| Andrew Edwards | Prifysgol Bangor |
| Cyng. Llinos Medi Huws | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Dafydd Gibbard | Cyngor Gwynedd |
| Andy Jones | Gwasanaeth Prawf |
| Gillian Jones | Gwasanaeth Prawf |
| Sian Williams | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Neil Thomas | Heddlu Gogledd Cymru |

**Pwyntiau Gweithredu**

1. Trefnu gweithdy ar gyfer trafod y Cynllun Llesiant ym Mehefin. Nifer o aelodau wedi gwirfoddoli ar gyfer is-grŵp i greu'r Cynllun a bydd y Tîm Cefnogi BGC yn cysylltu er mwyn trefnu - **Tîm Cefnogi BGC**
2. Agenda tlodi – Sandra i gylchredeg templed a chynnig cefnogaeth i'r Aelodau er mwyn ei lenwi – **Tîm Cefnogi BGC**
3. Anfon llythyr ar ran BGC Gwynedd a Môn i'r ONS, Llywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd yr Iaith Gymraeg i annog cynnal arolwg cenedlaethol ieithyddol mandadol - **Tîm Cefnogi BGC**
4. Tîm Cefnogi a Thîm Ymchwil Gwynedd i weithio ar yr Asesiadau drafft cyn eu cyhoeddi yn Mai 2022. Lois i gysylltu efo'r aelodau perthnasol i holi am wybodaeth a bylchau data - **Tîm Cefnogi BGC**
5. Trefnu cyfarfod efo Llywodraeth Cymru i drafod adborth yr Asesiadau Llesiant - **Tîm Cefnogi BGC**
6. Cais i sefydliadau rannu'r ymgyrch Natur a Ni gan Cyfoeth Naturiol Cymru – **Pawb**
7. Adroddiad i'r Bwrdd nesaf ar gynnydd yr is grŵp Hinsawdd a thynnu sylw at y gwaith fydd yn digwydd ar y cyd drwy'r is-grŵp - **NW/SW**
8. Sioned i ofyn i Lywodraeth Cymru am ddiweddariad y sefyllfa ffoaduriaid Wcráin yn genedlaethol - **SR**
9. Pob partner fod yn edrych ar ffurf i gefnogi'r sefyllfa yn Wcráin a bod yn barod i gyd-weithio yn ôl yr angen - **Pawb**
10. Angen i'r ddau awdurdod fel aelodau craidd gyfarfod yn ffurfiol ar ôl yr etholiad i benderfynu os am barhau i gytuno i gydweithio fel un Bwrdd – **Cynrychiolwyr y ddau awdurdod / Tîm Cefnogi BGC**

**Cofnod o'r drafodaeth**

| Eitem | Nodiadau | Pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>Croesawyd yr holl fynychwyr i'r cyfarfod a derbyniwyd yr ymddiheuriadau a nodir uchod. Croesawyd Dylan Williams i'w gyfarfod cyntaf o'r Bwrdd. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **2** | **Cylch Gorchwyl –** dim i'w adrodd | | |
| **3** | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf**<br>Derbyniwyd y cofnodion fel adlewyrchiad teg o'r drafodaeth. Cafwyd diweddariad ar y pwyntiau gweithredu:<br><br>1. Cytunwyd i anfon llythyr i Weinidog Llywodraeth Leol ar ran Cadeirydd y Bwrdd er mwyn holi am y gyllideb sydd ar gael i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. **Tîm Cefnogi BGC -** - *wedi ei anfon*<br>2. Tîm Cefnogi BGC i gydweithio gyda'r holl bartneriaid i adnabod sut maent yn cyfrannu at ffrydiau gwaith yr agenda tlodi erbyn y cyfarfod nesaf. Yn ddibynnol ar y gwaith yma, trefnu sesiwn gweithdy i drafod sut gall partneriaid gefnogi / herio ei gilydd ar gynnydd yn y maes tlodi. **Tîm Cefnogi BGC** - *wedi llithro*<br>3. Cytunwyd i gael diweddariad eto am yr agenda tlodi mewn 6-9 mis gan y ddau awdurdod gyda'i gilydd ochr yn ochr er mwyn cymharu sefyllfa'r ddwy sir. **Tîm Cefnogi BGC i drefnu –** *Cyfarfod Medi / Rhagfyr*<br>4. Gofynnwyd i'r is-grŵp Cymraeg fod yn edrych ar ddata dibynadwy ar gyfer nifer o siaradwyr Cymraeg rhwng y Cyfrifiad. **AJG –** *ar yr agenda*<br>5. Gofynnwyd i'r is-grŵp Gofal ac Iechyd amlinellu'r effaith y mae'r gwaith sydd wedi ei gyflawni wedi ei gael ar drigolion yn yr adroddiad cynnydd nesaf ym mis Mawrth. **FfJ -** *ar yr agenda*<br>6. Rhannu'r Asesiadau Llesiant drafft gydag aelodau'r Bwrdd ar ôl eu cyhoeddi er mwyn i bawb cael cyfle i roi eu sylwadau. **Tîm Cefnogi BGC -** *ar yr agenda*<br>7. Gofynnwyd i'r Tîm Cefnogi BGC a'r Gwasanaeth Ymchwil yng Nghyngor Gwynedd i ystyried os oes gwybodaeth/data dibynadwy y gellir ei ddefnyddio ar gyfer yr Asesiadau Llesiant sy'n dangos effaith Covid-19. **Tîm Cefnogi BGC -** *ar yr agenda*<br>8. Penderfynwyd mynd am opsiwn 3 er mwyn gweithredu'r Cynllun Llesiant a threfnu gweithdy ym Mehefin, gydag is-grŵp i arwain ar y gwaith yn cael ei sefydlu wedi hynny. **Tîm Cefnogi BGC –** *Cafwyd trafodaeth am yr enwebiadau ar gyfer yr is-grŵp gyda Dylan Williams (Cyngor Môn), Bethan Williams (Mantell Gwynedd), Dafydd Gwynne (Iechyd Cyhoeddus Cymru) a Nia Williams (Cyfoeth Naturiol Cymru) yn nodi parodrwydd i fod yn rhan o'r is-grŵp. Tîm Cefnogi BGC i drefnu cyfarfod cychwynnol.*<br>9. Arweinydd pob is-grŵp i edrych ar eu rhaglen weithredu o rŵan hyd at Mai 2023 gan amlinellu'n gryno beth yn union y bwriedir ei gyflawni rhwng rŵan a hynny. Tîm Cefnogi i gydweithio/cefnogi'r gwaith yma. **Arweinyddion is-grwpiau a Thîm Cefnogi BGC -** *ar yr agenda*<br>10. Angen cadarnhau'r penderfyniadau uchod gyda'r Gwasanaeth Tân a'r Awdurdod Iechyd gan nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod a bod angen i'r holl aelodau statudol fod yn bresennol i gael cworwm. Angen sefydlu beth yw'r trefniadau dirprwyo o fewn y sefydliadau partner statudol. **Tîm Cefnogi BGC –** *wedi llithro* | Tîm Cefnogi BGC | 16/6/22 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **4** | **Cyflwyniad gan Alwen Williams ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**<br>Cafwyd cyflwyniad gan Alwen Williams am waith y Bwrdd Uchelgais, y wefan newydd a chynnydd ar y 5 rhaglen o fewn y Cynllun Twf.<br><br>Eglurwyd fod mesur llwyddiant yn rhywbeth mae'r Bwrdd Uchelgais wedi bod yn edrych arno, gan fod angen i'r data fod yn ddigon sensitif i adnabod amrywiaethau daearyddol, a bod hefyd mesurau 'meddal' yn cael ei adnabod sy'n edrych yn ehangach na gwerth economaidd.<br><br>Diolchodd EW am y cyflwyniadau gan nodi eu bod wedi bod yn fuddiol. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â sut i adeiladu perthynas â'r BGC er mwyn gwella cyd-weithio. Eglurodd EW fod amddifadedd a thlodi yn rhywbeth roedd y BGC wedi bod yn edrych arno a nododd Alwen Williams fod hyn yn faes blaenoriaeth i'r Bwrdd Uchelgais hefyd gan gyfeirio at y rhaglen ddigidol ar gyfer ardaloedd gwledig ac anodd eu cyrraedd a chreu swyddi yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.<br><br>Nododd AJG fod yn hynod o bwysig i gynnwys y sector addysg o'r cychwyn cyntaf yn yr ysgol gynradd hyd at ôl 16. Nododd fod 12,000 o ddysgwyr yn y Coleg a fyddai'n ymgeiswyr posib ar gyfer y 4,200 o swyddi newydd ar draws y rhanbarth ond bod angen mapio taith gyrfa i sicrhau fod pobl ifanc lleol yn gallu llwyddo.<br><br>Eglurodd DS fod taith y Bwrdd Uchelgais yn un hir dymor, a bod y Cynllun Twf wedi rhoi sylw i sawl mater dros y 3-4 blynedd diwethaf ond ei fod yn anoddach mewn ardaloedd lle nad ydi'r economi gystal.<br><br>Pwysleisiodd BW bwysigrwydd y trydydd sector nid yn unig fel cyflogwr mawr yn yr ardal, ond hefyd fel cyfle i gadw'r budd yn lleol drwy gaffael i'r sector. BW hefyd yn tynnu sylw at ddiffyg cynrychiolaeth o'r trydydd sector ar y Bwrdd Uchelgais a nododd Alwen Williams fod hyn yn fwlch sydd wedi ei drafod eisoes. | | |
| **5a** | **Diweddariad ar waith yr is-grŵp Cymraeg - Aled Jones-Griffith**<br>Cyflwynodd AJG gynnwys yr adroddiadau gan egluro'r hyn y bwriadir ei gyflawni erbyn Mai 2023.<br><br>Ymatebodd AJG i gais EW i'r is-grŵp Cymraeg edrych ar y data sy'n cael ei gasglu am nifer y siaradwyr Cymraeg yn y blynyddoedd rhwng y Cyfrifiad. Yr hyn ddaeth yn amlwg o'r drafodaeth yn y cyfarfod is-grŵp iaith ddiwethaf oedd nad oes yna systemau a threfniadau o fewn yr aelodaeth i gasglu'r math yma o ddata a hyd yn oed ble mae sefydliadau yn casglu gwybodaeth am siaradwyr Cymraeg sydd yn defnyddio eu gwasanaethau, nid yw hwn ei hun yn ddata meintiol a gwyddonol ystadegol gan mai dim ond cofnod o ddewis iaith rheiny sydd yn trafferthu cysylltu a geir ac nid canran o'r holl ddefnyddwyr neu dderbynwyr gwasanaeth. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Amlygwyd hefyd pryder arall sef na fu Cyfrifiad gwladol yn cael ei gynnal ar ôl 2021, ac mai dyma yw'r brif ffynhonnell ar gyfer data siaradwyr presennol, yn ogystal â data pwysig arall y mae'r Bwrdd yn dibynnu arno.<br><br>Awgrymodd AJG mai'r ffordd orau ymlaen fyddai i'r BGC gysylltu efo'r ONS, Llywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd yr Iaith Gymraeg i annog cynnal arolwg cenedlaethol ieithyddol mandadol, yn enwedig gan fod yr her miliwn o siaradwyr erbyn 2050 yn rhoi achos da dros gynnal yr arolwg. Cytunodd yr Aelodau a gofynnwyd i'r Tîm Cefnogi BGC drefnu drafftio llythyr ar ran y Bwrdd. | Tîm Cefnogi BGC | 16/6/22 |
| 5b | **Diweddariad ar waith yr is-grŵp Newid Hinsawdd – Sian Williams**<br>Yn absenoldeb SW cyflwynodd JH a NW yr adroddiad oedd yn amlinellu beth oedd yr is-grŵp yn bwriadu ei gyflawni erbyn Mai 2023.<br><br>Diolchodd DW am yr adroddiad a nododd ei fod yn cynnwys lot o wybodaeth. Tynnodd BW sylw at nifer o gynlluniau cymunedol fel Gwyrdd Ni sy'n edrych ac ymgysylltu am y maes newid hinsawdd ar hyn o bryd, a'i fod yn bwysig bod y Bwrdd a'r is-grŵp yn 'tapio mewn' i'r digwyddiadau yma.<br><br>Roedd y Bwrdd yn awyddus i'r is-grŵp Newid Hinsawdd gynnal trafodaeth bellach ar ba waith oedd yn digwydd ar wahân (fel sefydliadau unigol) a pa waith sy'n disgyn o dan gyfrifoldeb y Bwrdd a lle gall gwaith partneriaeth ychwanegu gwerth. | Is-grŵp Newid Hinsawdd | 16/6/22 |
| 5c | **Diweddariad ar waith yr is-grŵp Iechyd a Gofal – Ffion Johnstone**<br>Cafwyd cyflwyniad gan FfJ ar y gwaith yr is-grŵp iechyd hyd yma, gyda'r pwyslais ar y 'beth felly?' - sef yr effaith oedd y Cynlluniau amrywiol wedi ei gael ar drigolion Gwynedd a Môn.<br><br>Cwestiynodd BW lwyddiant Cynllun Penyberth, gan fod oedi wedi bod a'r angen mawr am wlâu nyrsio yn Pen-Llŷn yn parhau.<br><br>Eglurodd FfJ bod diffyg adnoddau wedi bod yn her, ond y gobaith yw bod cyllideb drwy'r RIF yn gyfle da i symud ffrydiau gwaith yn eu blaen. | | |
| 6 | **Ymatebion i'r drafft Asesiadau Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn**<br>Cyflwynodd LO yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar yr Asesiadau Llesiant Drafft. Nodwyd fod y nifer o ymatebion yn siomedig ond bod prif negeseuon yn cynnwys bod angen mwy o wybodaeth am dlodi ac amlygiad cryno o brif negeseuon yr ardal. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Nodwyd hefyd bod ymatebion Llywodraeth Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Cyfoeth Naturiol wedi ei dderbyn yn ystod yr wythnos ond bod dim cyfle wedi bod cyn y cyfarfod BGC i'w dadansoddi yn llawn.<br><br>Wrth edrych ar y bylchau data, cynigodd sawl sefydliad gymorth er mwyn eu llenwi gan gynnwys data gordewdra gan Iechyd Cyhoeddus, Cynlluniau Gwerth Cymdeithasol a Banciau Bwyd gan Mantell Gwynedd a Medrwn Môn a throsedd gan Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn. LO i gysylltu gyda'r aelodau er mwyn llenwi'r bylchau hyn.<br><br>SR yn cynnig cyfarfod efo Llywodraeth Cymru i drafod yr adborth yn fanylach. Tîm Cefnogi BGC i drefnu hyn dros yr wythnosau nesaf. | LO<br><br>Tîm Cefnogi BGC | Cgap<br><br>cgap |
| **7** | **Natur a Ni – Nia Williams**<br>Cyflwynodd NW yr ymarferiad ymgysylltu Natur a Ni ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru.<br><br>Nododd BW y byddai'n syniad i gyflwyno'r gwaith i'r rhwydwaith trydydd sector. Cytunodd yr holl sefydliadau rannu'r ymgyrch ar eu gwefannau / cyfryngau cymdeithasol gyda staff a'r cyhoedd. | Pawb | cgap |
| **10** | **Heriau a Chyfleon – eitem sefydlog**<br>Dim i'w adrodd yn ystod y cyfarfod yma. | | |
| **11** | **Unrhyw Fater Arall**<br>• **Sefyllfa Wcráin -** DW yn amlygu ei fod yn bwysig i sicrhau mynediad i wasanaethau cyhoeddus wrth i'r ffoaduriaid gyrraedd y wlad dros y misoedd nesaf. Nododd ei fod yn bwysig fod pawb yn edrych am gyfleoedd i gyd-weithio er mwyn cefnogi'r teuluoedd sy'n cyrraedd Gwynedd a Môn. Nododd SR ei bod am holi Llywodraeth Cymru am ddiweddariad o'r sefyllfa er mwyn ei rannu ag aelodau'r BGC.<br>• **Cyfarfod nesaf** – yn dilyn yr etholiad bydd angen cytuno yn ffurfiol os yw Bwrdd Ynys Môn a Bwrdd Gwynedd am barhau i gyd-weithio**.** ST i wneud trefniadau ar gyfer hyn.<br>• **Cadeiryddiaeth –** Eglurodd EW mai dyma oedd ei gyfarfod olaf fel cadeirydd y Bwrdd. Diolchodd DS iddo am ei waith a'i arweiniad ar y Bwrdd. Bydd Cadeirydd newydd yn cael ei etol yng Nghyfarfod mis Mehefin o'r Bwrdd. | Pawb<br><br>SR<br><br>ST | parhaol<br><br>cgap<br><br>cyn 16/6/22 |